## ASTUDIAETH ACHOS

# SUT MAE CYMRU WEDI YSBRYDOLI POBL?

Roedd yr ysgol yn ardal Ystradgynlais yn annog dysgwyr i archwilio beth mae 'cynefin' yn ei olygu iddyn nhw a sut mae artistiaid yn gwneud defnydd o hyn yn eu gwaith. Roedd y gweithgaredd allweddol hwn yn cefnogi'r dosbarth yn eu hastudiaethau ac yn helpu'r athrawon i strwythuro'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y dysgwyr.



Defnyddiodd y dysgwyr Dasg 1 i'w helpu i ystyried sut mae'r awyr agored yn helpu gydag iechyd a lles. Roeddent yn mwynhau bod yn yr awyr agored yn arbennig a recordio'r golygfeydd a'r synau a oedd yn dangos 'y man lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn a lle mae'r bobl a'r tirlun o'u cwmpas yn gyfarwydd'.

Er enghraifft, fe wnaethon nhw recordio...

- torf mewn gêm rygbi leol
- llais y fenyw sy'n helpu pobl i groesi'r ffordd wrth yr ysgol
- fan hufen iâ
- jetiau RAF sy'n hedfan yn isel.

Roedd y dasg hon wedi ysbrydoli'r dysgwyr ac roeddent yn awyddus i dreulio amser yn yr ardal yn holi pobl eraill pam eu bod yn hoffi bod yn yr awyr agored. Ni chreodd y dysgwyr holiadur fel yr awgrymwyd yn Nhasg 2, ond nodwyd rhai syniadau syml am yr hyn yr oeddent am ei ofyn i bobl. Roedden nhw'n chwilio am bobl oedd yn eistedd neu'n cerdded o amgylch yr ardal ac yn cynnal sgwrs anffurfiol â nhw.

Gofynnodd y dysgwyr am sylwadau gan bobl eraill ynghylch bod yn yr awyr agored ac roeddent yn awyddus i ysgrifennu eu sylwadau eu hunain er mwyn crynhoi eu teimladau am bwysigrwydd treulio amser yn yr awyr agored.

Enghreifftiau o sylwadau:

- ‘Rwy’n dychmygu fy mod ar antur’
- ‘Rhyddid i archwilio’
- ‘Gallaf brofi popeth sydd gan natur i’w gynnig’
- ‘Mae’n cael gwared ar straen bywyd bob dydd’.

Ni wnaeth yr athrawon ddefnydd o Dasg 3, ond roeddent yn awyddus i ddefnyddio Tasg 4 gan eu bod yn gallu ymweld ag Ystradgynlais, lle bu’r artist Josef Herman yn byw. I ddechrau, archwiliodd y dysgwyr waith celf gan Josef Herman, gan gynnwys paentiadau manwl fel ‘Min nos, Ystradgynlais’ a ‘Menyw feichiog gyda ffrind’, gan fod y gweithiau hyn yn dangos rhannau o Ystradgynlais y gallai pobl eu hadnabod pan y byddent yn ymweld. Buont hefyd yn ymchwilio i enwau strydoedd ac adeiladau, ac ati, sy’n gysylltiedig â Herman. Fe ddaethant o hyd i Heol Giedd, tafarn Pen-y-Bont a phont ‘Arth fach’ pan ymwelon nhw ag Ystradgynlais.

Ar ôl ystyried cynefin Josef Herman, defnyddiodd y dysgwyr eu syniadau eu hunain am gynefin o Dasg 1, yn ogystal â’u hymchwil a’u hymweliad, i edrych ar weithwyr yn eu hardal eu hunain. Cawsant eu hannog i siarad â phobl a defnyddio’r profiadau hyn i greu paentiad o weithwyr lleol yn arddull Josef Herman.

Gan ddefnyddio ‘Dwy seren a dymuniad’, ystyriodd y dysgwyr feini prawf llwyddiant a rhoi adborth gan gymheiriaid i eraill yn y dosbarth, wedi i’r paentiadau gael eu cwblhau. Roedd hyn yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos tystiolaeth o’r agweddau ‘adborth’ a ‘gwerthuso’ o fewn y gosodiad ‘Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y Celfyddydau Mynegiannol’ o Faes y Celfyddydau Mynegiannol yn y Cwricwlwm i Gymru.